

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Beca

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Beca yn rhan o ffederasiwn gydag Ysgol Bro Brynach. Mae'r ethos gofalgar, cyfeillgar a chynhwysol yn cyfrannu at yr awyrgylch hyfryd sy'n nodweddiadol o'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion yn barchus a chwrtais. Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gadarn ac mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol wrth eu gwaith a'u chwarae.

Mae athrawon yn cynllunio'n fanwl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Nid yw'r cynllunio ar gyfer medrau digidol y disgyblion mor ddatblygedig. Yn sgil hyn, nid ydynt yn gwneud cymaint o gynnydd yn eu medrau digidol.

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnig ystod eang o brofiadau cyffrous a chyfoethog. Mae barn y disgyblion yn cael sylw manwl ar gychwyn y broses o gynllunio, felly mae'r rhan fwyaf yn frwdfrydig iawn am eu profiadau dysgu. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddylanwadu ar gyfeiriad eu dysgu wedi i'r gwaith thematig gychwyn. Mae staff yn darparu profiadau difyr ac ysgogol trwy'r gweithgareddau 'Gwener Gwyllt' sydd yn datblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn ymateb gyda chwilfrydedd a chymhelliant ac yn cael mwynhad arbennig o'u dysgu. Mae staff yn meithrin perthynas weithio annwyl a chynhaliol gyda'r disgyblion ac maent yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda. Mae awyrgylch braf a gweithgar yn yr ysgol ac mae bwrlwm cyson i'w holl weithgareddau. Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio ystod o dechnegau addysgu yn sgilgar.

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi ei rhannu'n bwrpasol â staff, rhieni a'r disgyblion. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar roi cyfle i bob disgybl ffynnu o fewn yr amgylchedd gofalgar. Mae hi'n cael ei chefnogi'n ymroddgar ac angerddol gan y staff. Er bod anghysondebau wedi bod yn arweinyddiaeth y ffederasiwn dros gyfnod estynedig, mae staff a llywodraethwyr wedi llwyddo i feddu ar ddealltwriaeth addas o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cefnogi arweinwyr a staff yn briodol.

# Argymhellion

**A1** **Parhau i ddatblygu arweinyddiaeth effeithiol ar draws y ffederasiwn**

**A2** **Sicrhau bod cynllunio yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau digidol**

**A3** **Cysoni trefniadau ar gyfer ymgorffori rôl y disgyblion yn eu dysgu ar draws y ffederasiwn**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'r defnydd effeithiol o'r ardaloedd tu allan er mwyn datblygu medrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm i'w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Beca |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 49 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 44 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 16% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 52.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 23/06/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 11/06/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 06/11/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/01/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.